Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

8 Ionawr 2024

Annwyl John,

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd:
Ymgynghoriad ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Rwy'n falch o weld bod yr ymgynghoriad presennol yn galluogi pobl i gyflwyno eu sylwadau drwy'r post yn ogystal ag yn electronig. Mae allgáu digidol yn broblem gynyddol i bobl hŷn ledled Cymru.

Mewn perthynas â hyn, nodaf mai un o'r cynigion yn y Bil uchod sy'n ymwneud â system y dreth gyngor yw disodli'r gofyniad presennol i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau newydd gyda gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o'r taliadau treth gyngor ar wefan yr awdurdod lleol a "rhoi trefniadau amgen addas ar waith i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i ddinasyddion sy'n ei chael yn anodd cael mynediad at gyfleusterau ar-lein".

Mae hyn yn destun pryder gan fod Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru yn dangos nad oes gan 31% o bobl dros 75 oed fynediad i'r rhyngrwyd gartref ac nad yw 33% o bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd (gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau llaw), o'i gymharu â 13% o bobl 65-74 oed a 0% o bobl 25-44 oed. Mae hyn yn golygu nad yw oddeutu 101,200 o bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Felly, mae'r newid hwn yn debygol o gael effaith anghymesur ar bobl hŷn. Mae 'trefniadau amgen addas' hefyd yn ddisodliad niwlog o'r gofyniad mwy penodol i gyhoeddi mewn papurau newydd, ac mae perygl y bydd yn ddewis amgen annigonol.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Tachwedd 2021, fe wnes i ddefnyddio fy mhwerau cyfreithiol i gyhoeddi canllawiau Adran 12 i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ynghylch mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol er mwyn helpu i fynd i'r afael â hawliau pobl hŷn nad ydynt ar-lein.

Ar hyn o bryd rwy'n gwneud rhagor o waith ar allgáu digidol. Mae dros 150 o bobl hŷn wedi rhannu eu profiadau diweddar o allgáu digidol gyda mi a byddaf yn cyhoeddi adroddiad ar y mater hwn cyn bo hir. Mae pobl hŷn yn disgrifio teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl, 'wedi gweld eu dyddiau gwell', ac wedi'u hynysu o ganlyniad i gymaint o fusnes bob dydd yn symud i fod ar-lein yn unig neu ddigidol yn gyntaf. Mae perygl y bydd y cynigion yn y Bil presennol yn ychwanegu at hyn ymhellach fyth ac maent yn ddiangen.

Mae'n bosibl y bydd dinasyddion yn fwy tebygol o weld gwybodaeth ddefnyddiol nad oeddent yn ymwybodol ohoni (ac felly ddim yn bwriadu chwilio amdani'n benodol) wrth bori drwy bapurau newydd cyhoeddedig. Mae'n ymddangos yn llai tebygol y bydd pobl yn pori drwy wefannau awdurdodau lleol.

Am y rhesymau uchod, dylid cadw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau o'r taliadau treth gyngor mewn papurau newydd a dylid dileu'r ddarpariaeth yn y Bil i hyn fod drwy wefannau awdurdodau lleol, gyda darpariaeth all-lein amgen amhenodol. Nid oes rheswm pam na all y Bil bennu bod taliadau'r dreth gyngor yn cael eu cyhoeddi ar-lein ac mewn papurau newydd.

Byddwn yn hapus i drafod mater allgáu digidol ymhellach. Cysylltwch â Ruth Thomas (ruth.thomas@olderpeople.wales) os hoffech drefnu cyfarfod.

Yn gywir

Heléna Herklots

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru